Trysorlys EM

27 Mawrth 2019

Dogfen y Fframwaith Ariannol – Cytuno ar y setliad ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

1. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio ac yn cyhoeddi rhagolygon annibynnol ar gyfer refeniw o drethi datganoledig Cymru ar gyfer Cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru ac o hynny allan. Bydd hyn yn gyson â'r trefniant a nodir yn y Cylch Gorchwyl ac yn unol â fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru.

2. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y setliad ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a fydd yn cwmpasu cost darparu'r rhagolygon ar gyfer trethi Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i Lywodraeth Cymru. Daw i rym o 1 Ebrill 2019.

Manylion

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi arian i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol er mwyn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chost llunio rhagolygon ar gyfer trethi Cymru, paratoi adroddiadau yn Gymraeg a Saesneg a gyhoeddir ar adegau a bennir gan amserlen Cyllideb Cymru a chynyddu ei phresenoldeb yng Nghymru.

4. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi amcangyfrif y bydd angen tua £100,000 o arian ychwanegol arni bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar yr union gost ym mhob blwyddyn ariannol rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru cyn i'r flwyddyn ddechrau.

5. Caiff arian Llywodraeth Cymru ei dalu i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol drwy Drosglwyddiad Cyllideb bob blwyddyn. Am mai un o gyrff hyd braich Trysorlys EM yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, caiff y swm y cytunwyd arno ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys EM a chaiff ei anfon ymlaen wedyn i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, fel rhan o broses y Prif Amcangyfrifon. Caiff y trosglwyddiad ei gofnodi fel llinell ar wahân yn amcangyfrif cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

6. Yn ogystal â'r ddogfen hon, bydd Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ysgrifennu bob blwyddyn at Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd, gan nodi sut mae'r arian gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i fodloni gofynion y Cylch Gorchwyl.

7. Caiff y fframwaith ariannol hwn ei adolygu'n rheolaidd yn ôl yr angen ac ar gais Llywodraeth Cymru neu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.